**EUR-02-02(cof)**

## Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

**COFNODION**

| |
|---|
| **Dyddiad:** 20 Mawrth 2002 |
| **Amser:** 9.30am |
| **Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| |
| **Yn bresennol: Aelodau** |
| Rhodri Morgan Gorllewin Caerdydd |
| (Cadeirydd) |
| Rosemary Butler Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman Cwm Cynon |
| Mike German Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths Dwyrain Casnewydd |
| Ieuan Wyn Jones Ynys Môn |
| Tom Middlehurst Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Rhodri Glyn Thomas Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Phil Williams Dwyrain De Cymru |
| |
| **Swyddogion** |
| Gary Davies Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd |

| |
|---|
| ac Allanol |
| Phil Bird Isadran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford Pennaeth Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel |
| Elisabeth Jones Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| |
| Howell Rees Clerc y Pwyllgor |
| James Owen Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

**Papur:** EUR-02-02(p1)

1.1 Croesawyd pawb i’r Pwyllgor gan y Cadeirydd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Nicholas Bourne AC, Glenys Kinnock ASE. Jill Evans ASE, Eluned Morgan ASE, Catherine Eva, Jos Gallacher, George Wright a Rose D’Sa. Anfonodd Richard Edwards, Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, a Cynog Dafis, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, eu hymddiheuriadau hefyd i’r cyfarfod.

2. Tynnodd y Cadeirydd sylw at rai materion yn ychwanegol i’w adroddiad ysgrifenedig:

- Ni fyddai Llysgennad Sbaen yn gallu derbyn gwahoddiad y pwyllgor i fynychu cyfarfod yn ystod Llywyddiaeth Sbaen o’r Undeb Ewropeaidd (UE). Cytunodd y pwyllgor i wahodd Llysgennad Denmarc i gyfarfod ym Mehefin neu Orffennaf, am drafodaethau ar y blaenoriaethau ar gyfer Llywyddiaeth Denmarc o’r Undeb Ewropeaidd (UE) (**pwynt gweithredu**).
- Byddai Romano Prodi, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd yn agor swyddfa newydd y Comisiwn ym Mae Caerdydd ar 24 Mai 2002.
- Ar gais y Cadeirydd dywedodd Des Clifford wrth y pwyllgor fod Uwch-gynhadledd Barcelona yn ffon fesur i asesu’r cynnydd a wnaed ar y nodau uchelgeisiol a amlinellwyd yn Uwch-gynhadledd Lisbon 2000 i wneud y byd yn un o economïau mwyaf deinamig Ewrop erbyn 2010. Ymhlith y materion a drafodwyd yn yr uwch-gynhadledd roedd agor y farchnad ynni a chreu Gweriniaeth Serbia a Montenegro mewn dêl a drefnwyd gan Javier Solana.
- Byddai’r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystyried y papur ar bolisi cyfunol yr UE ar 24 Ebrill 2002. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn ymchwilio i’r cyfraniad a wnai’r rhaglen arian strwythurol i wahaniaethau yn yr arian rhwng rhanbarthau.
- Dynodwyd tair sedd i’r Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer y ddwy raglen drawsgenedlaethol Interreg 3B Ewropeaidd a byddai un o’r seddau yn dod i’r Gweinyddiaethau Datganoledig i’w

rhannu am yn ail. Enwebwyd John Griffiths fel cynrychiolydd y Cynulliad ar raglen Gogledd-Orllewin Ewrop ar gyfer cyfnod 2002 hyd ddiwedd 2003. Byddai gan y Cynulliad sedd ar raglen Ardal Môr Iwerydd ar gyfer y cyfnod 2004 hyd ddiwedd 2005 a byddai cynrychiolydd yn cael ei ddewis yn nes at y dyddiad. Roedd y trefniadau ar gyfer Interreg 3, y rhaglen drawsgenedlaethol arall yn a oedd yn cwmpasu Cymru eto i'w cytuno. Cytunodd y Cadeirydd i hysbysu'r pwyllgor o'r datblygiadau ar y rhaglenni Ewropeaidd hyn.

- Roedd Dennis Turner, Prif Weithredwr Masnach Rhyngwladol Cymru wedi cael cyfarfod gyda Milos Zeman, Prif Weinidog y Weriniaeth Tsiec yn eu Llysgenhadaeth yn Llundain fel rhan o fenter fusnes. Cymru oedd yr unig ranbarth o'r DU oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

2. Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth ar adroddiadau ysgrifenedig a llafar y Cadeirydd:

- Roedd setliad ar agor y farchnad ynni a fyddai'n dod i rym o 2004, wedi ei gytuno yn Uwch-gynhadledd Barcelona. Llwyddodd Ffrainc i ohirio'r broses oherwydd yr effaith bosibl a gai ar eu hetholiadau arlywyddol sydd ar fin digwydd.
- Gan y DU roedd y gwahaniaethau rhanbarthol mwyaf o ran cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) o'r holl aelod wladwriaethau. Roedd y gwahaniaethau rhanbarthol o CMC i'w weld yn yr aelod wladwriaethau mwy cyfoethog a byddai o ddiddordeb arbennig i Gymru yn ystod y broses ehangu. Gwnaeth y Cadeirydd y sylw bod pwyslais yr UE ar gyfluniad wedi ymdrechu i leihau'r gwahaniaethau rhwng aelod wladwriaethau, ond mai canoli gwasanaethau ariannol a sefydliadau gwleidyddol yn Ne Ddwyrain Lloegr oedd wedi creu'r gwahaniaeth rhanbarthol presennol o fewn y DU.
- Byddai rhaglen Interreg 3C yn cwmpasu 'Parth y Gorllewin'. Roedd y Cynulliad yn pwyso i sicrhau cynrychiolaeth ar gynifer o'r rhaglenni a chyrff hyn â phosibl. Roedd Llywodraeth y DU wedi gwneud cais fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig cynrychiolydd ar gyfer y sedd ar raglen Gogledd-Orllewin Ewrop.
- Canmolwyd Canolfan Ewropeaidd Cymru am gyflwyno Cymru mewn dull cadarnhaol yn ystod 'Wythnos Cymru' ym Mrwsel. Llwyddodd yr wythnos i ddarlunio arwyddocâd Dydd Gë yl Ddewi a'r agweddau modern a thraddodiadol ar Gymru. Ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol megis 'Wythnos Cymru', dylai grwpiau'r pleidiau ystyried y dull gorau i alluogi Aelodau'r Cynulliad i fod yn bresennol.
- Roedd Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol a Morol yn canolbwyntio'n ddeallus ar ddylanwadu ar bolisi ar sail ranbarthol a lleol, sef prif reswm i'r Cynulliad ddewis ymuno â'r grë p. Byddai'r Cadeirydd yn parhau i archwilio'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod o'r Gynhadledd yn y dyfodol yng Nghymru.
- Cadarnhaodd y Cadeirydd y bu trafodaethau anffurfiol rhwng Sue Essex y Gweinidog Dros yr Amgylchedd a Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ar roi cytundebau triphlyg ar faterion amgylcheddol ar waith. Gofynnwyd i'r Cynulliad i gymryd y rôl arweinyddol ar rwydweithio ar raglenni datblygiad cynaliadwy.
- Anogodd cyfarfod y Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd yn Llandudno ar 15 Chwefror gyfranogi, yn arbennig ar y Papur Gwyn ar Lywodraethu.

2. Cytunwyd y byddai:

- Y pwyllgor yn ystyried papur byr ar raglenni trawsgenedlaethol Ewropeaidd yn y cyfarfod nesaf **(pwynt gweithredu)**.
- Byddai'r Clerc yn darparu nodyn i'r aelodau ar yr hyn a olygir wrth fusnes pwyllgor ffurfiol i'r aelodau yng ngoleuni pryderon a godwyd yngl í n â threuliau i gyfarfod y Fforwm yn Llandudno **(pwynt gweithredu).**

## Eitem 2: Trafodaeth gyda Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant

1. Dywedodd Rhodri Glyn Thomas fod y Pwyllgor Diwylliant yn ymwneud â dau fater oedd â dimensiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd . Roedd cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008 wedi cyrraedd y pwynt lle'r oedd y cais swyddogol yn cael ei argraffu. Bu Yvette Vaughan Jones, cyn weithwraig yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru yn ddylanwadol yn y gwaith o ffurfio'r cais. Roedd copi o'r cais ar gael i aelodau'r pwyllgor er gwybodaeth. Byddai Tessa Jowell, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried y cais. Gallai'r pwyllgor a Phrif Weinidog Cymru ddefnyddio'u dylanwad i lobïo'r Ysgrifennydd Gwladol ar ran cais Caerdydd.
2. Yr ail fater gyda dimensiwn Ewropeaidd oedd adolygiad y Pwyllgor Diwylliant ar yr Iaith Gymraeg. Roedd disgwyl adroddiad cyntaf y Siarter Ewropeaidd ar ieithoedd lleiafrifol llai eu defnydd ym mis Gorffennaf. Byddai'r Pwyllgor Diwylliant yn gofyn am adroddiad gan y Gweinidog ar y cyfraniad o Gymru.
3. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Ni chafodd y Pwyllgor Diwylliant gyfle i gwrdd â Gweinidog Addysg Gwlad y Basg, er bod y Cadeirydd, ar ei gais, wedi mynychu cinio i'r ddirprwyaeth. Cytunodd y pwyllgor y dylai'r Aelodau gael y cyfle i gwrdd â dirprwyaethau oedd ar ymweliad lle bynnag roedd hynny'n ymarferol bosibl.
- Nododd y Cadeirydd lwyddiant yr ê yl Ryng-Geltaidd yn Lorient. Cymru oedd y genedl a gai'r prif sylw y tro yma yn yr ë yl a denodd yr achlysur lansio ym Mharis 50,000 o bobl ar ddwy noson yn olynol yn y 'Stade de France'. Roedd cerddoriaeth Geltaidd yn fusnes mawr gydag apêl eang yn y farchnad gerddoriaeth fodern.

## Eitem 3: Y Papur Gwyn ar Lywodraethu

Papur: EUR 02-02(p2)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur oedd yn amlinelliad ymateb drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar y Papur Gwyn ar Lywodraethu. Rhoddodd yr ymateb ystyriaeth i themâu cyffredin a drafodwyd yn Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd yn Llandudno. Gobeithiai'r Cadeirydd y gellid dod i gytundeb fel y gallai'r papur gael ei gyflwyno fel ymateb Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i fudd-ddeiliaid.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

   - Gallai'r grwpiau pleidiau gyflwyno ymateb annibynnol i'r ymgynghoriad pe dymunent.
   - Roedd y Cynulliad ac awdurdodau lleol Cymru eisoes yn arddangos llawer gwedd ar bum egwyddor llywodraethu da y Papur Gwyn. Byddai hyn o fudd i Gymru mewn dadleuon ar

ddyfodol Ewrop.

- Roedd gweinidogion y Cynulliad yn ffodus o gael cysylltiadau agos gyda gweinidogion y DU. Bu'r berthynas hon o fudd i'r Cynulliad oherwydd cyfraniad gweinidogion y Cynulliad yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion.
- Roedd angen ymgynghori ar Bwyllgor y Rhanbarthau ar adeg gynnar yn y deddfu i atgyfnerthu ei rôl o fewn y fframwaith Ewropeaidd.
- Byddai cytundebau triphlyg yn bwysig i Gymru oherwydd y potensial i greu polisi sy'n fwy addas i anghenion lleol. Byddai'r pwyllgor yn awyddus i ystyried modelau o sut y gallai'r cytundebau weithio ac edrych ar syniadau a ffurfiwyd mewn rhanbarthau eraill o'r UE.
- Dylai'r ymateb ddatgan hawl i Gymru fod â rhan mewn rheoli gwastraff a rheoli parthau arfordirol. Gwnaeth y Cadeirydd sylw fod y Comisiwn wedi annog Cymru i ffurfio syniadau ar gyfer cytundebau triphlyg mewn meysydd fel y rhain ond oherwydd na fyddai'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei gweithredu ar draws Ewrop byddai'n torri ar draws gofyniadau Cytundeb Rhufain.
- Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r pwyllgor fod Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn y Papur Gwyn wedi canolbwyntio ar weithredu dyfeisgar a rhaglenni datblygu cynaliadwy. Gofynnodd y Comisiwn i'r Cynulliad gymryd rôl flaenllaw mewn rhwydweithio ar ddatblygiad cynaliadwy, gan sefydlu meincnod ar gyfer rhaglenni i'r dyfodol. Roedd cytundeb cyfreithiol rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn yn cael ei ffurfioli ar hyn o bryd.
- Roedd cynhadledd i'w chynnal yn Abertawe ar 15 Mai 2002 ar ddatblygiad yr agenda cydraddoldeb drwy'r rhaglen Arian Strwythurol Ewropeaidd.

1. Cytunwyd:

- Y dylai'r aelodau gyflwyno gwelliannau ar yr ymateb terfynol i'r Clerc a fyddai'n eu trosglwyddo i'r swyddogion perthnasol. Byddai'r drafft terfynol yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn cael eu hanfon ymlaen i'r Comisiwn cyn y dyddiad cau ar 31 Mawrth 2002 **(pwynt gweithredu)**. Byddai'r ymateb yn nodi cytundeb ar draws y Cynulliad pe bai consensws yn cael ei gyrraedd rhwng aelodau'r pwyllgor.
- Byddai'r Cadeirydd yn darparu nodyn ar drefniadau'r Cynulliad gyda'r Comisiwn i gymryd rôl flaengar mewn rhwydweithio ar Ddatblygiad Cynaliadwy er na fyddai'n bosibl efallai i ddarparu hwn cyn cyhoeddiad cyhoeddus **(pwynt gweithredu).**

**Eitem 4: Goblygiadau yr Ewro i Gymru**

Papur: EUR 02-02(p3)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a amlinellai goblygiadau lansio'r arian sengl i Gymru. Bu effaith yr Ewro ar draws Cymru, yn llai nag a ddisgwylid, er bod masnach yn ymddangos mewn ardaloedd fel Caergybi.
2. Gwnaed y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Dylai'r Cynulliad gefnogi yn rhagweithiol a rhoi adnoddau i Dasglu'r Ewro yng Nghymru i sicrhau ei bod yn gallu parhau i ddarparu cyngor ar yr arian sengl i fusnesau yng Nghymru.

- Byddai adroddiad ar effaith gë yl Cheltenham ar y fasnach ymwelwyr yng Nghymru yn ddiddorol. Yn yr un modd byddai'n bwysig mesur effaith yr arian sengl mewn ardaloedd ger y canolfannau ymwelwyr o bwys fel Caer.
- Gallai effaith yr Ewro ar y diwydiant ymwelwyr yng Nghymru gynyddu'n gyflym. Rhaid i fusnesau ac awdurdodau lleol fod yn barod am hyn pe digwyddai.
- Dylai Bwrdd Croeso Cymru anfon y neges allan i ddarpar ymwelwyr â Chymru bod modd defnyddio'r Ewro yng Nghymru. Roedd y Bwrdd Croeso wedi cynnwys arweiniad yr Awdurdod Twristiaeth Prydeinig i'r Ewro yn rhifyn mis Chwefror o'i gylchgrawn 'Trade Talk'. Ni chafwyd ceisiadau am wybodaeth bellach o ganlyniad i gyhoeddi'r arweiniad hwn. Roedd yn bwysig bod y diwydiant ymwelwyr yng Nghymru yn barod ar gyfer effaith bosibl yr Ewro y tymor hwn.
- Roedd John Casterton, rheolwr Tasglu'r Ewro, yn parhau i ymweld ag awdurdodau lleol a grwpiau diddordeb yn cynnwys cyrff busnes ac ymwelwyr, i ddarparu cyngor ar yr Ewro. Byddai'r rhaglen hon o ymweliadau yn parhau am beth amser. Byddai Pwyllgor Llywio Tasglu'r Ewro yn cwrdd ar 29 Ebrill 2002 a byddai'r swyddogion yn gallu bwydo'r pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod hwn i'r Pwyllgor Llywio.
- Trafodwyd rôl y pwyllgor wrth ystyried y meini prawf ar gyfer ymuno â'r Ewro.Roedd rhai aelodau am drafodaeth yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Fodd bynnag, roedd y Cadeirydd yn sicr ei farn y dylai'r rheolwyr busnes yn gyntaf ystyried sut y gallai'r Cynulliad cyfan drafod y pwnc hwn.

4.3 Cytunwyd bod nodyn ar roi adnoddau i dasglu'r Ewro yng Nghymru yn cael

ei ddosbarthu i aelodau'r pwyllgor **(pwynt weithredu).**

**Eitem 5: Cylch gorchwyl estynedig y pwyllgor**

Papur: EUR 02-02(p4)

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a amlinellai weithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'i hagenda ryngwladol y tu hwnt i Ewrop. Rhannodd y gweithgareddau i bedwar categori yn fras o weithgaredd hyrwyddo, digwyddiadau tramor, ymweliadau mewnol a chysylltiadau rhyngwladol.
2. Gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Roedd proffil Cymru wedi codi ar draws y byd yn dilyn datganoli. Tanlinellwyd hyn gan lwyddiant cysylltiadau addysgol yn New South Wales a chafodd pecyn marchnata a chysylltiadau 'Cymru Cenedl Byd' adborth cadarnhaol.
- Roedd hi'n bwysig i'r Cynulliad i fonitro yn flynyddol lwyddiant y cysylltiadau i werthuso a oedd proffil Cymru yn parhau i godi. Roedd y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Prydeinig yng Nghaerdydd ar hyn.
- Roedd y Cynulliad yn gweithio ar brosiect brandio i hyrwyddo Cymru. Hysbyswyd y pwyllgor gan Gary Davies fod cyllideb y rhaglen ar gyfer gweithgaredd cysylltiadau allanol ar gyfer 2001-2002 yn £1.1 miliwn a'i amcanu i fod yn £1.2 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

- Roedd hi'n bwysig bod cynrychiolwyr diwylliannol a chwaraeon Cymru yn mabwysiadu rôl llysgenhadol answyddogol pan fônt dramor.
- Sefydlwyd grë p swyddogol a gynhwysai gynrychiolwyr o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i ddwysáu cyfleoedd ac i godi proffil Cymru yn rhyngwladol. Gallai Cyngor Cymru dros Weithredu Gwirfoddol a chyrff gwirfoddol eraill efallai ddarparu ffynhonnell o wybodaeth ddefnyddiol am gysylltiadau rhyngwladol.

**Eitem 6: Rhanbarthau Ewrop sydd â Phwerau Deddfwriaethol**

Papur: EUR 02-02(p5)

1. Cyflwynodd Des Clifford y papur a amlinellai ymwneud y Cynulliad yn y grë p a elwir yn 'Rhanbarthau â Phwerau Deddfwriaethol'. Bu Cymru yn aelod o'r grë p o'r cychwyn ac roedd Des Clifford yn aelod o'r grë p llywio, ar lefel swyddogol, a oedd yn y broses o osod yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf yn Tuscany. Prif nod y grë p oedd pwyso am fwy o gydnabyddiaeth i'r rhanbarthau o fewn yr UE.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Gallai'r Cynulliad ddysgu gan aelodau'r grë p a gafodd brofiad blaenorol o ddatganoli anghymesur, fel y digwyddodd yn y DU.
- Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynulliad wedi cael ei groesawu yn y grë p fel enghraifft o ddatganoli 'gwirioneddol', er bod rhanbarthau eraill yn aml yn camddeall y trefniadau datganoli yng Nghymru.

**Eitem 7: Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

Papur: EUR 02-02(p6) a EUR 02-02(p7)

1. Rhoddodd Rosemary Butler adroddiad ar waith Pwyllgor y Rhanbarthau:

- Roedd Pwyllgor y Rhanbarthau yn rhan fach, ond efallai yr rhan ddylanwadol, o'r fframwaith Ewropeaidd a ddeallai y byddai'n rhaid i'r drefniadaeth newid er mwyn cyflawni.
- Gallai'r papurau Ewropeaidd o Bwyllgor y Rhanbarthau gael eu dosbarthu i bwyllgorau'r Cynulliad i gael eu harchwilio.
- Mynychwyd cyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ar 13-14 Mawrth 2002 gan Neil Kinnock, Is-Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, a drafododd Raglen Waith y Comisiwn 2002, secondiad swyddogion i'r UE a'r sialensau yr oedd yr aelod wladwriaethau newydd yn mynd i'w hwynebu ar ôl ymaelodi. Hefyd rhoddwyd cynrychiolydd Llywyddiaeth Sbaen anerchiad yn y cyfarfod llawn gan drafod heneiddio, a oedd yn bwnc y gallai'r Cynulliad ei ystyried maes o law.
- Roedd grë p strategaeth dirprwyaeth y DU, y daeth Rosemary Butler yn aelod ohono, yn y broses o drafod dogfen arddull cyfansoddiadol Ewropeaidd. Er mwyn llywio mewnbwn y Cynulliad i'r ddogfen, byddai Rosemary Butler yn rhoi crynodeb ysgrifenedig i'r pwyllgor o'r prif bwyntiau a drafodwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

- Yr oedd hi’n bwysig bod Eluned Morgan ASE a Glenys Kinnock ASE wedi cyfarfod y Comisiynydd Pascal Lamy i drafod sefyllfa y diwydiant dur yng Nghymru yng ngoleuni cyflwyno tariff yn ddiweddar gan Unol Daleithiau America.
- Dywedodd y Cadeirydd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru benodi cynrychiolwyr o Gymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol.
- Teimlai’r pwyllgor ei bod yn bwysig cyfarfod â’r Comisiynwyr Romano Prodi a Vivane Reding ar eu hymweliadau â Chymru ym Mai a Mehefin 2002.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Papur: EUR-02-02(min)

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

   Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm